# Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

## LGPS(2)-06-06(p.5)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mawrth 30 Mawrth 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 3, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Cyllid ar gyfer Gweithredu'r Dyletswyddau Etholiadol Newydd

#### Diben

Hysbysu'r pwyllgor o'r newidiadau arfaethedig i Brif Grwp Gwariant Llywodraeth Leol i greu Llinell Wariant yn y Gyllideb i gynnwys y cyllid ychwanegol o Lywodraeth y DU a gaiff ei ddyrannu i awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn gweithredu'r swyddogaethau newydd a argymhellir o dan y Mesur Gweinyddiaeth Etholiadol.

#### Argymhellion

Bod y pwyllgor yn nodi'r newidiadau arfaethedig yn unol â Rheol Sefydlog 21.

#### Y Cefndir

Cyflwynwyd y Mesur Gweinyddiaeth Etholiadol gerbron y Senedd ym mis Hydref 2005 ac mae'n argymell newidiadau i'r system etholiadol gyda'r bwriad o sicrhau bod pawb i gael pleidleisio; y nifer uchaf posibl yn pleidleisio a'r twyll isaf posibl.

Mae llawer o'r cynigion yn y Mesur yn seiliedig ar argymhellion y Comisiwn Etholiadol o astudiaethau ac ymgyngoriadau manwl.

Yn ogystal â'r mesurau yn y Mesur cyflwynir rhai newidiadau drwy is-ddeddfwriaeth. Bydd y mesurau yn gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol ac mae'r Adran Materion Cyfansoddiadol wedi gwneud ymrwymiad o ran cyllid i weithredu'r dyletswyddau newydd i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.

Ar sail 53c ar gyfer pob etholwr, amcangyfrifwyd mai £1.19m fyddai'r cyllid ychwanegol i Gymru. Cyrhaeddwyd y ffigur hwn oherwydd costiadau a wnaed gan yr Adran Materion Cyfansoddiadol o'r faich gyfan ychwanegol ar awdurdodau lleol yn sgil y Mesur, wedi'i rhannu gan gyfanswm yr etholaeth. Bydd defnyddio'r fformiwla hwn yn rhoi swm ychwanegol i Gymru, sy'n uwch nag amcangyfrif

fformiwla Barnett o £17,000. Mae hyn oherwydd fod cyfran yr etholwyr cofrestredig ym mhoblogaeth oedolion Cymru yn uwch na chyfran y DU'n gyffredinol.

Y dyletswyddau ychwanegol sy'n debygol o ychwanegu at wariant awdurdodau lleol yw:

- Sicrhau bod y lefelau cofrestru'n codi - ymweliadau o dy i dy.
- Ymestyn yr oriau pleidleisio i 10pm ym mhob etholiad - costau staff ychwanegol.
- Rhybudd ychwanegol o'r etholiad i'w roi i bleidleiswyr post - argraffu a chostau postio
- Awdurdod i swyddogion canlyniadau hyrwyddo etholiadau - costau argraffu
- Defnyddio nodau dwr neu nodau diogelwch yn lle offer stampio
- Creu cofrestri wedi'u nodi ar gyfer pleidleiswyr post - costau staff.
- Ychwanegu codau bar i bapurau pleidleisio - costau argraffu.

Wrth i'r Pwyllgor graffu ar y Mesur Gweinyddiaeth Etholiadol, codwyd pryderon fod ystyriaeth annigonol wedi'i rhoi i'r gost ychwanegol o gyfieithu yng Nghymru. Yn ei adroddiad, cynigiodd y pwyllgor y dylid sicrhau digon o gyllid ar gyfer gweithredu'r ddarpariaeth yn y Mesur a bod angen cydnabod yr angen am ddwyieithrwydd yng Nghymru.

Fodd bynnag, gan fod y cyllid ychwanegol a gynigir gan Lywodraeth y DU yn uwch na fformiwla Barnett ac am nad yw materion fel costau cyfieithu yn brif resymau dros wariant ychwanegol, credir y byddai ymgais i sicrhau cyllid ychwanegol yn ddiwerth. Mae swyddogion wedi cynnal trafodaethau â'r Adran Materion Cyfansoddiadol, sydd wedi dangos nad oes ganddynt gyllid ychwanegol ar gael.

## Goblygiadau Ariannol

Bydd llinell wariant newydd yn y gyllideb sef "trefniadau etholiadol: cyllid i awdurdodau lleol" yn cael ei chreu o fewn y Prif Grwp Gwariant Llywodraeth Leol i gynnwys y cyllid ychwanegol yn y flwyddyn newydd ariannol. Ar gyfer 2006/07 telir yr arian ychwanegol i awdurdodau lleol drwy grant penodedig a fwriedir i dalu am wasanaethau etholiadol. O 2007/08 bydd y cyllid yn cael ei gynnwys fel rhan o'r setliad refeniw.

Sue Essex AC

Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Cyswllt: Frank Cuthbert, Is adran Polisi Llywodraeth Leol, ffôn 029 2082 3094